

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 8 Ebrill 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Geraint Owen, Glyn Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Owain Owen, Ffion Roberts, John T Rowlands, Hugh Williams

Ymddiheuriadau John Griffith, Peredur Hughes, Iona Phillips, Ifan P Rowlands

1 Cofnodion cyfarfod Mawrth 2014

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Mawrth 2014 gyda Mr Trefor Jones yn cynnig a Mr John Trefor Rowlands yn eilio.

2 Cynllunio

- 2.1 47C52G Cais llawn i ymestyn y safle datblygu i gynnwys ffordd mynediad mewnol newydd ar y safle ynghyd ag ail alinio ffens diogelwch y safle ar dir i'r gogledd ddwyrain o / Full application to extend the development site to include a new internal site access road together with the realignment of the site security fence at land to the North East of : *Alaw Water Treatment Works, Llantrisant*

Dim gwrthwynebiad i'r cais ond wrth ymateb gofyn bod cymal yn cael ei gynnwys o fewn y caniatâd cynllunio bod y cwmni nail ai'n darparu ariannu neu yn gwneud gwaith atgyweirio i'r ffordd lleol. Mae difrod sylweddol yn cael ei achosi i'r seilwaith lleol oherwydd y cynnydd enfawr mewn lorïau ayyb sy'n defnyddio'r ffordd bach.

- 2.2 47C102A * Cais llawn i godi sied amathyddol ar gyfer cadw anifeiliad yn / Full application for the erection of an agricultural shed to keep livestock at : *Clwchdernog Bach, Llanddeusant* *

Roedd y Clerc wedi derbyn penderfyniad caniatâu cynllunio ar gyfer y cais yma oddi wrth CSYM ond nad oedd wedi derbyn y cais wreithiol cyn iddi ebostio'n holi amdano.

3 Materion a codwyd yn ystod y cyfarfod

3.1 Addysg plant Llanddeusant a'r cylch

Roedd rhai o'r cynghorwyr wedi deall y bod cyfarfod yn cael ei chynnal yn Ysgol Ffrwd Win i drafod dyfodol Ysgol Cylch a'n debyg dyna le bu Cynghorwyr Talybolion. Roedd consyrn nad oedd rhieni plant ardal Llanddeusant yn cael eu cysylltu ynglŷn â'r mater pwysig yma. Mae'n debyg y bod Ysgol Bodedern yn llawn ac mae'r rhieni'n bryderus i ba ysgol bu plant nhw'n mynd yn y dyfodol.

3.2 Hen Ysgol Llanddeusant/Neuadd Bentref

Trafododd y Cyngor yr safle'r Hen Ysgol a'r Neuadd Bentref. Gall adeilad Yr Hen Ysgol fod yn fwy hyblyg na'r Neuadd y Pentref, ond ni allai'r gymuned gynnal dau adeilad o'r fath. Er nad yw ar hyn o bryd mewn sefyllfa i gynnig awgrym o'r fath yn ffurfiol, meddwl tybed a gall y Cyngor Sir ystyried cyfnewid eu perchnogaeth o'r Hen Ysgol gyda Neuadd y Pentref? Cytunwyd bod y Clerc yn gofyn i'r Cynghorwyr Talybolion a allent o bosibl yn gwneud ymholiadau synhwyrol ar ran Tref Alaw cyn ei bod yn rhy hwyr ac mae'r Hen Ysgol yn cael ei werthu.

Taliadau Clerc (gan cynwys costau) £2,000
Arian i mewn